Sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Cynllun Llysgenhadon

Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Summit SKILLS

Beth yw llysgennad Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau?

Mae llysgenhadon PGA yn bobl sydd eisoes yn gweithio yn y sector ac yn gwirfoddoli eu hamser i hybu a denu recriwtiaid newydd. Maent yn dod o unrhyw un o'r diwydiannau yn y sector, ac ar bob lefel o dechnegydd crefft i reolwr.

Rydym yn edrych am bobl dalentog yn y sector i ddod yn llysgenhadon PGA. Bydd angen i chi weithredu fel wyneb ein sector, gan rannu gwybodaeth a phrofiad ac ysbrydoli pobl ifanc i ymuno â'r sector a'u helpu i weld y cyfleoedd gyrfa posib y gall y diwydiannau oddi mewn iddo eu cynnig.

Mae llysgenhadon yn hybu'r sector drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau yn cynnwys cyflwyniadau mewn ysgolion, digwyddiadau gyrfaoedd, diwrnodau agored ac ymweliadau â safleoedd. Gofynnir iddynt siarad â grwpiau bach o bobl ifanc ac ateb cwestiynau am y diwydiant.

Mae'n ofynnol ar lysgenhadon gefnogi un digwyddiad o leiaf bob blwyddyn.

Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Mae'r sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau (PGA) yn cynrychioli'r diwydiannau craidd sef electrodechnegol, gwresogi ac awyru, tymheru, rheweiddiad, plymo ac ymgynghori Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau.

Mae'r sector yn amrywiol ac yn cwmpasu lleoliadau diwydiannol, masnachol a domestig, yn ogystal â chwarae rôl bwysig mewn datblygu cynaladwy ac effeithlonrwydd ynni.

Mae'r sector PGA yn lle cyffrous i weithio. Mae gan bob un o'r diwydiannau oddi mewn iddo ei heriau a'i wobrwyon ei hun. Mae gennym enw da haeddiannol am safonau uchel ac yn dymuno i hyn barhau. Bob blwyddyn rydym yn wynebu'r her o ddenu recriwtiaid newydd i'r sector, ac rydym yn dymuno i'r unigolion hyn fod y rhai gorau posib. Dyna pam rydym yn edrych am bobl frwdfrydig i'n helpu.

Rhaglen llysgenhadon SummitSkills

Cynlluniwyd rhaglen llysgenhadon SummitSkills i gipio arbenigedd a gwybodaeth gan y rheiny a gyflogwyd yn y sector a'u defnyddio i hybu'r sector a'r cyfleoedd gyrfa posib.

Mewn partneriaeth â STEMNET, rydym yn edrych am bobl yn y sector ar bob lefel ac o sefydliadau o bob maint i ddatblygu delwedd peirianneg gwasanaethau adeiladau, gyda'r cyfle i gynnig mentora, arweiniad gyrfaoedd neu enghreifftiau delfrydau ymddwyn i bobl ifanc sy'n ystyried gyrfa yn unrhyw un o'n diwydiannau craidd.

Beth sydd ei angen arnaf i ddod yn llysgennad?

"Pan oedd SummitSkills yn edrych am gyflogwyr i gymryd rhan yn y cynllun llysgenhadon, cefais fy nghyfeirio atynt drwy fy nghymdeithas fasnach. Roedd diddordeb gennyf mewn ymuno gan fy mod yn teimlo ei fod yn ffordd i roi rhywbeth yn ôl i mewn i'r diwydiant sydd wedi bod yn dda i mi dros y blynyddoedd. Roeddwn yn meddwl hefyd y byddai'n fy ngalluogi i drosglwyddo cyngor am yr hyn yr oeddwn wedi ei ddysgu drwy fy mhrofiadau fy hun drwy gydol fy ngyrfa."

Paul Antino
Cyfarwyddwr,
NRT Electrical & Mechanical

Yr unig ragofyniad yw brwdfrydedd dros eich gwaith a'r sector, a pharodrwydd i rannu eich gwybodaeth a'ch profiad personol ag eraill, gan adlewyrchu safbwynt 'bywyd go iawn' o'r sector. Y nodwedd bwysicaf yw eich gallu i gymell pobl ifanc a'u helpu i weld potensial yn y sector PGA.

Yn gyffredinol byddai'r canlynol yn fuddiol:

- **Pum mlynedd o leiaf o brofiad ar unrhyw lefel yn y diwydiant**
- **Gwybodaeth gyffredinol dda o faterion a mentrau'r diwydiant**
- **Ymrwymiad i SummitSkills yn y sector**

Noder y bydd yn rhaid i chi gael gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) gorfodol.

Manteision

- **cymell pobl ifanc i ystyried gyrfa yn y sector PGA**
- **bydd cwrs cyflwyno yn rhoi sgiliau cyfathrebu i chi y byddwch yn elwa arnynt**
- **codi proffil eich cwmni i gyflogeion posib yn y dyfodol**
- **yr wybodaeth y byddwch yn helpu'r sector a'ch gyrfa eich hun ar yr un pryd**
- **gweld sut mae ymgeiswyr prentisiaethau y flwyddyn nesaf yn perfformio mewn amgylchedd agos at waith**
- **helpu nodi pa agweddau ar eich swydd sy'n eich cymell ac yn eich ysgogi fwyaf**
- **rhannu profiadau gyda llysgenhadon PGA eraill**
- **gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus drwy SummitSkills yn cynnwys astudiaethau achos**

Sut i gymryd rhan

Os ydych yn gweithio yn y sector PGA a bod diddordeb gennych mewn ysbrydoli pobl ifanc, cysylltwch â ni. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar y dudalen gefn.

STEMNET
Science, Technology, Engineering and Mathematics Network

STEMNET

Mae SummitSkills yn gweithio gyda STEMNET (Science, Technology, Engineering and Mathematics Network) y sefydliad cenedlaethol sy'n hybu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), y mae ganddynt dros 19,000 o lysgenhadon cofrestredig yn genedlaethol ar draws pob sector.

Mae llysgenhadon yn mynd drwy hyfforddiant cyflwyno gyda sefydliadau lleol sy'n gweithredu ar ran STEMNET, a chysylltir â hwy yn rheolaidd gyda manylion digwyddiadau addas yn yr ardal lle mae angen cefnogaeth llysgenhadon. Rhoddir manylion y dyddiad a'r amser ac oed a nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod yn bresennol.

Mae'r dewis o ddigwyddiadau yr ydych yn eu mynychu i fyny i chi yn llwyr, ond byddwch wedi eich ymrwymo i un o leiaf ym mhob blwyddyn galendr. Mae'n debygol y byddwch yn cefnogi ysgolion a digwyddiadau gyrfaoedd, ond gan fod SummitSkills yn cefnogi'r sector cyfan ar bob lefel, gallai fod cyfleoedd i gymryd rhan mewn addysg bellach a gweithgareddau rheoli hefyd.

Mae STEMNET hefyd yn darparu'r yswiriant rwymedigaeth ar gyfer pob llysgennad yn ystod eu gweithgareddau yn cefnogi'r sector.

Am fwy o wybodaeth ar STEMNET ewch i'w gwefan yn **www.stemnet.org.uk**

SummitSkills
Vega House, Opal Drive,
Fox Milne, Milton Keynes MK15 0DF

T: 01908 303960
Ff: 01908 303989
www.summitskills.org.uk
e-bost enquiries@summitskills.org.uk